



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Borth-y-Gest
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9UF**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

gan

Mr Goronwy Morris

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Borth-y-Gest ym mhentref Borth-y-Gest, ger Porthmadog ac mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun, Morfa Bychan gerllaw, a'r ardal wledig o gwmpas. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Gwynedd. Mae twristiaeth yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ardal, ac at ei gilydd fe'i disgrifir fel un gymharol ffyniannus. Mae'r disgyblion yn cynrychioli'r ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio tipyn pan ddechreuant yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir plant i ddsbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf yn 2006. Yn ystod yr arolygiad, roedd 60 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan un athro amser llawn a thair athrawes ran amser.

Addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae tua 35% y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae 13 o ddisgyblion (22%) wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran o ddisgyblion (4%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Gwynedd a Chymru.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Medi 2011.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Borth-y-Gest yw £3,166. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7,732 a'r isafswm yw £2,745. Ysgol Borth y Gest yw'r 69fed allan o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Borth-y-Gest yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda;
- cymhelliant disgyblion yn uchel a'r cynnydd a wnânt yn y gwersi yn dda;
- yr ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu diddorol sydd, ar y cyfan, yn cyfarfod ag anghenion rhan fwyaf y disgyblion;
- yr ysgol yn sicrhau cymuned ofalgar, gynhwysol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel; a bod
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles disgyblion a'u datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a'i bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion, a'r llywodraethwyr;
- yr ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda;
- tystiolaeth o ddisgwyliadau uchel; a bod
- yr ysgol yn barod i gydweithio gyda phartneriaid i rannu arfer dda.

Argymhellion

Dylai'r ysgol:

- A1 sicrhau gwelliant pellach yn y niferoedd disgyblion sy'n cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2;
- A2 parhau â'r gwaith o gynllunio dilyniant yn y medrau, yn enwedig i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cael tasgau sy'n eu hymestyn yn llawn;
- A3 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol; a
- A4 chryfhau cyfraniad y staff a'r corff llywodraethol i gymryd rhan fwy blaenllaw yn y broses hunan arfarnu a monitro gwaith yr ysgol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae perfformiad yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol yn dda o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, cyflawnodd bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 1 y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) ym mhob pwnc craidd. Dros yr un cyfnod, mae'r niferoedd sy'n cyflawni lefel 3 neu uwch yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio. Yn gyffredinol, mae'r niferoedd yn cymharu'n dda gyda'r teulu ym mathemateg ond yn is mewn Cymraeg a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed (lefel 4) yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Cyflawnodd bron pob disgybl y lefel ddisgwyliedig yn y pedwar pwnc craidd dros y pedair blynedd diwethaf. Bron yn ddiethriad mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o safbwynt cyfran y plant a'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y cyfnod hwn.

Mae canran y disgyblion yn cyflawni lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn Saesneg a mathemateg yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu. Mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn amrywio.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Fe welir y cynnydd da hwn yng nghyflawniad disgyblion yn eu gwaith, eu llyfrau ac mewn gwersi. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a gallu. Mewn rhai agweddau ar eu gwaith, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda iawn ar eu hathrawon ac yn barod iawn i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn gan ddefnyddio geirfa eang.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn darllen ar goedd lyfrau o her yn Gymraeg a Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion sydd â'u hoed darllen yn uwch na'r disgwyliadau. Maent yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol ac yn ymddiddori mewn llyfrau. Maent yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, daw rhan fwyaf y disgyblion i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain yn annibynnol i ystod o bwrpasau gan ddefnyddio ansoddeiriau a berfenwau'n

effeithiol i gyfoethogi eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i ysgrifennu i sawl pwrpas. Maent yn cynllunio eu gwaith yn ofalus ac yn medru gwneud gwelliannau wrth ailddrafftio. Erbyn diwedd y cyfnod mae gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu i sawl pwrpas. Gwna rhan fwyaf y disgyblion gynnydd da yn atalnodi eu gwaith gan baragraffu'n briodol. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn pynciau eraill, gan wneud defnydd cynyddol o dermau arbenigol. Mae safonau cywirdeb gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn dda.

Lles: Da

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i fagu arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd. Mae un o bob dau o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ymuno â gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chynghor.

Mae lefelau cymhellant bron bob un o'r disgyblion yn uchel ac maent yn ymroi yn frwdfrydig i'r gweithgareddau dysgu. Mae llawer yn gweithio'n dda yn annibynnol o dan gyfarwyddyd yr athrawon ac yn cyfrannu'n effeithiol i'r gwersi.

Mae'r holl ddisgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Maent i gyd yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd. Mae lefelau cyfredol presenoldeb yr ysgol yn 95.5% yn uwch na'r ddwy flynedd flaenorol ble roedd presenoldeb ychydig yn is nag ysgolion tebyg.

Mae medrau personol, cymdeithasol a bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i'r ysgol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pa mor dda maent yn ei wneud yn Gymraeg a'r hyn sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith. Nid ydynt yr un mor hyderus mewn pynciau eraill.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol, cynghorau dosbarth a'r grŵp gwyrdd yn weithgar ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn dda. Maent wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis amgylchedd yr ysgol, adnoddau a phenderfynu ar elusennau i'w cefnogi. Mae'r modd y mae disgyblion yr ysgol yn datblygu'n unigolion cyflawn a hyderus yn nodwedd gref.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n manteisio'n llwyddiannus ar brofiadau disgyblion yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r gweithgareddau yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae cynlluniau manwl ar gyfer gweithgareddau amrywiol yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod digon o gynnydd mewn medrau a dealltwriaeth. Mae'r cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm ond mewn rhai achosion nid oes digon o sylw i sicrhau dilyniant yn natblygiad y medrau yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd yn nodwedd gref. Mae profiadau'r disgyblion wedi'u cyfoethogi trwy ymweliadau oddi ar y safle a thrwy dderbyn ymwelwyr i'r ysgol. Rhoddir sylw da i astudio'r amgylchedd a hanes lleol yr ardal mewn cyd-destun diwydiant Cymru e.e. diwydiant llongau Borth y Gest. Mae'r

ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Ceir darpariaeth effeithiol hefyd i alluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd a'r rôl sydd ganddyn nhw ac eraill mewn cymdeithas ac yn y byd.

Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion yn canolbwyntio ac yn dangos diddordeb ac mae'n sicrhau cynnydd a dysgu da gan y disgyblion. Mae perthynas waith da rhwng y staff a'r disgyblion ym mhob dosbarth, ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r cymorthyddion i roi cymorth ychwanegol i grwpiau ac unigolion penodol.

Mae'r athrawon yn rhannu nodau'r gwersi'n briodol gyda'r disgyblion ac yn trefnu dilyniant o weithgareddau sy'n sicrhau bod y disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol yn barhaus. Maent yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion ar ddechrau'r gwersi ac mae gan y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'u targedau personol yn y Gymraeg. Yn yr ychydig wersi lle nad yw'r addysgu cystal, mae or-gyfarwyddo gan yr athrawon yn cyfyngu ar y cyfleoedd gan ddisgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain. Mae deunyddiau a dulliau cyflwyno yn cael eu gwahaniaethu'n addas yn y mwyafrif o wersi ond nid ydynt bob amser yn herio'r disgyblion uwch eu gallu

Mae cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ddatblygu eu medrau cyfathrebu mewn gwersi ac mae athrawon yn gwneud defnydd da o adnoddau. Mae'r marcio yn drylwyr ac yn rhoi adborth manwl i'r disgyblion ar ansawdd eu gwaith ac yn cynnig sylwadau iddynt ar yr hyn i'w wneud i wella a'r camau nesaf.

Drwy'r adroddiadau a chyfarfodydd tymhorol, mae rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am gyflawniadau eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Caiff manteision byw yn iach a datblygu iechyd corfforol y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda iawn, ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer nodi anghenion dysgu disgyblion pan fyddant yn ymuno ac yn sicrhau fod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni. Mae'r staff yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol. Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn nodi targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol ac mae'r ethos gweithgar a chynhaliol yn meithrin agweddau cadarnhaol a pharch. Mae goddefgarwch a chydraddoldeb hiliol yn cael sylw da yn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r adeilad yn cynnig ystod o ddsbarthiadau a chyfleusterau pwrpasol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd gorau posib o'r safle ac mae safon glendid yr adeilad yn uchel. Mae'r ardal tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n effeithiol iawn. Nid yw gwedd allanol yr ysgol yn adlewyrchu ansawdd dda'r ddarpariaeth oddi fewn i'r dosbarthiadau.

Ceir amrywiaeth o adnoddau sy'n cyfoethogi'r dysgu a'r addysgu. Defnyddir gwaith plant ac arddangosfeydd yn effeithiol yn yr arfer orau i gyfoethogi'r amgylchedd.

Gwneir defnydd da o gyfleusterau chwaraeon yr ardal i ychwanegu at y cyfleoedd a ddarperir yn yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Yn y cyfnod byr ers ei benodiad mae'r pennaeth yn rhoi arweiniad clir a phwrpasol sydd yn barod yn cael effaith bositif ar yr ysgol. Mae nifer o gynlluniau a pholisïau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau priodol i fodloni anghenion disgyblion. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir. Fe rennir gweledigaeth am gyfeiriad yr ysgol yn llwyddiannus gydag aelodau'r staff a'r llywodraethwyr. Mae disgwyliaidau'n uchel o gynnal safonau da yn amlwg ym mywyd a gwaith bob dydd yr ysgol. Fe gaiff pawb ei gynnwys mewn trafodaethau a phenderfyniadau yn gyson. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i gyfranogi at ddatblygiad yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac yn eu trafod yn ofalus. Maent yn frwdfrydig ac yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn ymwybodol iawn o berfformiad y disgyblion ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Drwy eu diddordeb am agweddau o waith yr ysgol mae aelodau unigol yn dechrau datblygu dealltwriaeth well am fywyd a gwaith yr ysgol.

Rhoddir sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn dylanwadu'n briodol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac fe roddir sylw da i bwysigrwydd llythrennedd a datblygu medrau meddwl. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n ar wella ansawdd a chodi safonau.

Gwella ansawdd: Da

Ar y cyfan, mae gweithdrefnau hunan arfarnu yn effeithiol. Defnyddir ystod dda o weithgareddau monitro gan gynnwys dadansoddi data, arsylwi gwersi a chraffu ar waith y disgyblion. Caiff aelodau'r staff gyfle i gyfrannu i'r broses ond nid ydynt eto yn dylanwadu'n ddigonol ar gynnwys yr adroddiad. Nid yw rôl y llywodraethwyr yn y broses chwaith yn hollol effeithiol ac maent yn cydnabod bod angen iddynt ehangu ei rôl fel cyfeillion beirniadol a chymryd rhan fwy blaenllaw yn y broses. Gwerthfawrogir sylwadau'r rhieni a'r disgyblion ac fe eu hystyrir o ddifrif.

Mae cysylltiad amlwg rhwng y broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn gynhwysfawr, yn canolbwyntio ar godi safonau ac mae'r meini prawf llwyddiant yn berthnasol a heriol. Mae'r camau gweithredol ceir ac sydd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni addas ar gyfer eu cwblhau.

Ceir gweithdrefnau da ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol aelodau'r staff ac mae'r ysgol yn elwa o gydweithio pwrpasol. Mae cysylltiadau da gydag ysgolion lleol arall i drafod blaenoriaethau a rhannu ymarfer da.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gan yr ysgol bartneriaethau da gyda rhieni ac mae'r disgyblion yn elwa o'u haelioni. Mae'r cysylltiadau a threfniadau gyda'r ysgol uwchradd leol yn gynhwysfawr ac yn sicrhau trosglwyddo didrafferth iawn. Mae'r dasg o gymedroli gwaith disgyblion ond megis dechrau ac nid yw eto'n arf effeithiol i sicrhau dealltwriaeth o ofynion gwahanol lefelau ym mhob pwnc craidd.

Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau da gyda'r gymuned. Mae'r bartneriaeth gyda'r awdurdod addysg yn sicrhau gwelliant priodol yn y ddarpariaeth. Mae ymweliadau disgyblion i ganolfannau lleol yn hybu eu hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi. Cydweithir gyda nifer o asiantaethau i ennill achrediadau megis Ysgol Iach ac Ysgol Werdd. Mae'r profiadau hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o egwyddorion cadw'n iach a chynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'i gwaith yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau priodol ym mhob maes heblaw am dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Fe wneir defnydd effeithiol o amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon.

Ceir cydbwysedd a dealltwriaeth dda rhwng llywodraethwyr a'r pennaeth wrth ddiffinio cyfrifoldebau ariannol. Mae'r gyllideb yn rhoi trosolwg clir o wariant. Rheoli'r cyflenwad da o adnoddau ar gyfer holl anghenion yr ysgol yn effeithiol ac fe wneir defnydd da ohonynt.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i chyllideb i hyrwyddo addysg effeithiol. Mae safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu da yn sicrhau fod yr ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Cyfnod allweddol 1

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel disgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion saith mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru.

Cyflawnodd bron pob plentyn y lefel disgwyliedig, sef lefel 2, yn y tri phwnc dros y pedair blynedd diwethaf.

Wrth gymharu canlyniadau cyfnod allweddol 1 gyda chanlyniadau ysgolion tebyg ar draws Cymru gyfan o safbwynt y canran sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol yn 2011 ar gyfer y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ymhlith y 25% uchaf. Dros y tair blynedd flaenorol bu'r canlyniadau ymhlith y 50% isaf.

Mae'r niferoedd yn cyflawni lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 3 neu uwch, yn amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol mae'n cymharu'n dda gyda'r teulu ym mathemateg ond yn tueddu i fod yn is mewn Cymraeg a gwyddoniaeth dros y cyfnod yma.

Cyfnod allweddol 2

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), yn gyson uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru.

Cyflawnodd bron pob disgybl y lefel disgwyliedig, sef lefel 4, yn y pedwar pwnc dros y pedair blynedd diwethaf. Bron yn ddiethriad mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o safbwynt cyfran y plant a'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y cyfnod hwn.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (lefel 5 neu'n uwch) yn Saesneg a mathemateg yn gyson uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru. Mae'r niferoedd sy'n cyflawni'r lefelau uwch yn y Gymraeg a gwyddoniaeth yn amrywio.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rhiant/gofalwyr

Daeth 20 o ymatebion i law. Mae bob un yn datgan fod eu plant wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda yn yr ysgol a'u bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae pob rhiant a ymatebodd yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol ac o'r farn fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Credant hefyd fod ymddygiad y disgyblion yn dda.

Mae pob rhiant hefyd o'r farn fod yr athrawon yn gweithio'n effeithiol ac yn annog y plant i weithio'n galed. Maent yn hapus â'r cynnydd a wna'r disgyblion a'r amrywiaeth sydd mewn gweithgareddau a gynigir iddynt. Credant hefyd fod yr addysgu yn dda a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae pob un yn hapus â'r wybodaeth a dderbyniant am gynnydd y disgyblion. Mae bron pob un yn cytuno fod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan holl ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (33 disgybl)

Mae'r holl ddisgyblion yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os yw'n poeni neu ofidio. Maent yn teimlo eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Mae bron pob disgybl yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent yn dweud eu bod yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Maent yn credu eu bod yn dysgu sut i aros yn iach a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Maent yn cytuno bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae nifer bach o ddisgyblion yn nodi nad yw gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Nid yw nifer bach o ddisgyblion yn cytuno fod ymddygiad plant eraill yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Nid dyma ganfyddiad y tîm arolygu ar sail arsylwi o fewn dosbarthiadau ac o ganlyniad i holi dysgwyr wyneb yn wyneb.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Mervyn Lloyd Jones	Arolygydd Tîm
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Kevin Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Rhys Williams	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.